Bwrdd Cymwysterau Cymru

Drafft o Gofnodion Cyfarfod Bwrdd Cymwysterau Cymru a gynhaliwyd ar 22 Medi 2022 am 10.15am.

Yn bresennol:

Bwrdd Cymwysterau Cymru: David Jones (DBJ) (Cadeirydd), Douglas Blackstock (DB) (eitemau 4,5,6,7), Philip Blaker (PB), Julie Brannan (JB), Anne-Marie Duffy (AMD), Michael Griffiths (MG), Graham Hudson (GH), John Latham (JL) Jayne Woods (JW) a Ravi Pawar (RP).

Staff Cymwysterau Cymru: Alison Standfast (AS), Jo Richards (JR), Emyr George (EG) (eitem 7), Cassy Taylor (CT) (eitemau 5,6,7), Ashok Ahir (AA), Mark Pender (MP), Lisa Mitchell (LS) (eitem 6), (Catrin Verrall (CT) (eitem 8), Tom Anderson (TA) (eitem 12), Kerry Price (KP) (eitem 14),

Sylwedyddion: Mike Keoghane (MK) (Llywodraeth Cymru), Zulekai Ibrahim (ZI) (Prosiect Llwybrau at y Bwrdd) a Huw Landeg Morris (HLM) (Halpin).

Ymddiheuriadau: David W Jones (DWJ) a Hannah Rowan (AD).

1. Croeso

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod, yn enwedig Zulekai Ibrahim, a oedd yn bresennol fel sylwedydd fel rhan o'r prosiect Llwybr at y Bwrdd, a Huw Llandeg Morrig o Halpin a oedd yn gwylio fel rhan o Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd. Croesawodd hefyd Ravi Pawar (Pennaeth Ysgol Gyfun Bryntirion) a oedd wedi ymuno â'r bwrdd fel cynghorydd. Diolchodd y Cadeirydd i Staff Cymwysterau Cymru am eu gwaith yn paratoi papurau ar gyfer y cyfarfod.

1. Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Cymwysterau Cymru a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2022 a diweddariad ar Gamau Gweithredu

2.1. Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion fel cofnod cywir o'r trafodaethau, yn amodol ar fân welliannau.

2.2 O dan faterion sy'n codi, rhoddodd JR ddiweddariad ar y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd am bapur UG Mathemateg Uned 1 yn ystod yr haf. Trafodwyd materion eraill oedd wedi digwydd yn Safon Uwch Iaith a Llenyddiaeth Saesneg (uned 4) a TGAU Cyfrifiadureg hefyd.

2.3 Nododd y Bwrdd y cofnod gweithredu. Roedd yr holl gamau wedi'u cwblhau.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

- **Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion o'r cyfarfod ar 14 Gorffennaf 2022 (mân welliannau pwnc) a nododd y cofnod gweithredu.**

3. Adroddiad y Cadeirydd

3.1 Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad llafar i'r Bwrdd gan dynnu sylw at y canlynol:

- Roedd y cyfweliadau ar gyfer swydd Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol bellach wedi digwydd ac roedd yna ymgeisydd a oedd yn cael ei ffafrio.

- Roedd y Cadeirydd, PB a JR wedi bod i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ochr yn ochr â CBAC y diwrnod blaenorol i drafod canlyniadau haf 2022. Roedd hyn wedi mynd yn dda a doedd dim meysydd o bryder i dynnu sylw'r Bwrdd atynt. Gofynnodd y Cadeirydd i ddolen at y recordiad o'r cyfarfod gael eu hanfon at aelodau'r Bwrdd er eu gwybodaeth, a gwnaed hyn yn ystod y cyfarfod.

- Roedd y Cadeirydd wedi bod mewn dau gyfarfod gyda Chymdeithas yr Iaith Gymraeg ochr yn ochr â swyddogion CC dros y misoedd diwethaf. Yn y cyfarfodydd hyn, mewn cysylltiad â datblygiadau 'Cymwys ar gyfer y dyfodol' (QFF), tynnodd Cymdeithas yr Iaith sylw at faterion yn ymwneud â'r cymwysterau TGAU newydd ac yn fwy cyffredinol eu pryder sylweddol dros nifer o flynyddoedd ynghylch nifer y dysgwyr oedd sefyll arholiadau TGAU Cymraeg Ail Iaith ond nad oedd yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl. Roedd Cymdeithas yr Iaith yn ymwybodol o'r ymgynghoriad QFF sydd ar ddod fel cyfle ffurfiol i ymateb. Dywedodd y Cadeirydd fod y mater ehangach ynghylch y gallu i siarad Cymraeg yn fater sy'n mynd y tu hwnt i TGAU a QFF, ac un lle mae'n amlwg bod gan CC ran i'w chwarae ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru a sefydliadau rhanddeiliaid eraill, fel rhan o ymrwymiadau a rennir i amcanion *Cymraeg 2050* (gweler hefyd gofnod 7.4 isod).

- Darparwyd crynodeb o'r trafodaethau a gynhaliwyd yng nghyfarfod y Cyfarwyddwyr Anweithredol yn union cyn y cyfarfod hwn o'r Bwrdd. Edrychodd y cyfarfod hwn ar themâu cyffredin a materion perthnasol eraill i'w rhannu a oedd wedi codi o adolygiadau 1-1 y Cadeirydd gyda phob aelod. Cafodd nifer o gamau y cytunwyd arnynt eu hamlinellu yn y papur a gyflwynwyd, gan gynnwys cytundeb y dylai holl gyfarfodydd y Bwrdd gael eu cynnal yn bersonol yn swyddfeydd CC wrth symud ymlaen, ac y dylai cyfarfodydd pwyllgorau'r Bwrdd aros fel cyfarfodydd rhithwir drwy MS Teams. Dylid ymestyn y bwrdd i ddeuddydd, ddwywaith y flwyddyn yn ddelfrydol. Trafodwyd hefyd adroddiad gan y Pwyllgor Taliadau a chymeradwywyd yr argymhellion. Teimlai rhai Cyfarwyddwyr Anweithredol y gellid lleihau hyd y papurau. Roedd y Cadeirydd ac AS eisoes yn adolygu hyn. Roedd y dull a gymerwyd eisoes ar gyfer cyflwyno papurau yn fyrrach, wedi cael derbyniad da. Roedd rhai Cyfarwyddwyr Anweithredol wedi gofyn a ddylid adolygu gwerthoedd, a chytunwyd ei bod yn amserol gwneud hynny, ac y dylai hyn

barhau i gael ei yrru gan weithwyr a gellid edrych arno ar ôl i'r adolygiad o 'ddull cynhwysol' y sefydliad gael ei gwblhau. Eglurwyd perchnogaeth o'r strategaeth ddigidol a nodwyd hefyd fod sesiynau gweithdy aelodau o'r Bwrdd ar wahân yn cael eu cynnal i drafod Gwrth-hiliaeth.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

- **Nododd y Bwrdd adroddiad y Cadeirydd.**

4. Adroddiad y Prif Weithredwr

4.1 Cyflwynodd PB ei adroddiad fel y Prif Weithredwr a chrynhodd y gwaith ar draws y sefydliad nad oedd wedi'i gynnwys mewn mannau eraill ar yr agenda.

4.2 Tynnodd PB sylw at yr atodiad i'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth gan y Bwrdd i gynyddu nifer penaethiaid parhaol y sefydliad o un i ddarparu adnodd ychwanegol i'r tîm caffael. Roedd y swydd newydd arfaethedig wedi cael ei gwerthuso gan CC a LlC ar Fand 2. Holwyd a oedd graddfa gweithgaredd caffael CC yn cyfiawnhau creu swydd newydd, a chadarnhaodd AS fod y swyddogaeth gaffael yn CC yn ehangach nag mewn rhai sefydliadau eraill, a bod sawl datblygiad, gan gynnwys y ddeddfwriaeth i ddiwygio rheolau caffael a gweithredu'r system gyllid newydd, yn golygu y byddai llwyth gwaith y tîm caffael yn cynyddu'n sylweddol. Ar ôl trafod ymhellach, cytunodd y Bwrdd ar y cynnydd arfaethedig i'r nifer.

4.3 Tynnodd PB sylw at y pwyntiau canlynol yn ei adroddiad:

- Mewn perthynas â 2022, roedd y canlyniadau hwyr ar gyfer BTEC a'r OCR Nationals / Technicals wedi cael eu hadrodd yn eang, a bu rhywfaint o effaith ar ddysgwyr yng Nghymru. Ond doedd dim un coleg wedi codi hyn fel pryder gyda CC.

- Byddai newidiadau i gynllun y swyddfa, fel yr amlygwyd ynghynt i aelodau'r Bwrdd, yn digwydd tua hanner tymor mis Hydref.

- Roedd CC wedi derbyn hysbysiad ffurfiol y byddai PCS yn cynnal pleidlais i'w haelodau ar streic mewn perthynas â'i hawliad cyflog ar gyfer 2022/23. Byddai gweithredwyr cangen Cymwysterau Cymru yn annog ei aelodau i gymryd rhan ond nid oedd yn gwneud unrhyw argymhelliad ar sut y dylen nhw bleidleisio.

- Roedd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi rhoi gwybod i reoleiddwyr a chyrff dyfarnu eu bod wedi penderfynu peidio â chymryd camau rheoleiddio mewn perthynas â dyfarnu graddau yn haf 2020, ac roeddent yn dod â'u hymholiadau i gasgliad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol fe wnaed y pwyntiau canlynol:

- Mynegwyd pryder ynghylch y trosiant staff diweddar yn y tîm Cyfathrebu, a gofynnwyd am sicrwydd ynghylch y tîm hwn a'i waith parhaus, yn enwedig mewn perthynas â datblygu gwefan newydd Cymwysterau Cymru. Dywedodd PB fod y farchnad ar gyfer gweithwyr cyfathrebu yn arbennig o ddeinamig ar hyn o bryd gyda llawer o gyfleoedd ar gael, ond bod recriwtio llwyddiannus i'r tîm hwn yn parhau. Ychwanegodd AA fod y Pennaeth Cyfathrebu newydd i fod i ddechrau ym mis Hydref a bod cefnogaeth allanol yn cael ei defnyddio hefyd i gryfhau'r tîm. Ychwanegodd aelod o'r Bwrdd y bu'r cyfathrebu o amgylch canlyniadau haf 2022 yn rhagorol a llongyfarchodd y tîm am hyn.

- Rhoddodd AA ddiweddariad ar gynhyrchu'r adroddiad blynyddol a chadarnhaodd fod hyn ar y gweill a byddai'r Bwrdd yn derbyn drafft i'w gymeradwyo yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd. Cadarnhawyd bod ymdrechion yn cael eu gwneud i wneud yr adroddiad blynyddol mor gryno â phosib ac y byddai'n cael ei gyhoeddi fel dogfen ar-lein yn unig.

- Trafodwyd canlyniadau haf 2022 a llongyfarchwyd CC ar y ffordd yr ymdriniwyd â hyn.

- Rhoddodd AS ddiweddariad ar weithredu'r system gyllid newydd, a chadarnhawyd bod y sefyllfa wedi gwella ac nad oedd pryder bellach na fyddai'r system yn cael ei chyflawni. Roedd profion yn parhau ac roedd y cyflenwr yn cael ei gadw dan bwysau.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

- **Cafodd y cynnydd i nifer staff parhaol CC o un aelod i ddarparu adnodd ychwanegol i'r tîm caffael, ei gymeradwyo.**

- **Nododd y Bwrdd adroddiad y Prif Weithredwr.**

5. Graddio Haf 2023

5.1 Cyflwynodd JR adroddiad a oedd yn nodi'r dadansoddiad ystyriaethau a dewisiadau ar gyfer graddio cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yng Ngaeaf 2022/23 a Haf 2023.

5.2 Dywedodd JR fod yr opsiynau canlynol wedi cael eu hystyried ar gyfer graddio gwobrau yng Ngaeaf 2022/23 a Haf 2023:

- Opsiwn 1: Mae'r canlyniadau'n adlewyrchu canlyniadau 2019 (h.y. cario'r safon ystadegol ymlaen)
- Opsiwn 2: Canlyniadau'n adlewyrchu canlyniadau 'plws' 2019
- Canlyniadau 3: Canlyniadau'n adlewyrchu canlyniadau 'hael' 2019
- Opsiwn 3: Mae'r canlyniadau tua hanner ffordd rhwng canlyniadau 2019 a 2022 (gan ddarparu blwyddyn arall o ddull camu yn ôl at safonau cyn y pandemig)

5.3 O ystyried y gwahanol opsiynau sydd ar gael, argymhellwyd y dylai dyfarnu graddau ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch fod yn seiliedig ar safle tua hanner ffordd rhwng canlyniadau 2019 a 2022 (Opsiwn 4). Byddai hyn yn cydnabod yr amharu ar ddysgu a brofwyd gan y carfanau sy'n sefyll arholiadau yn haf 2023, yn ystyried effaith y gwobrwyo a wnaed yn 2022 ar gyfer cymwysterau UG/Safon Uwch cypledig a TGAU unedol a'r cam sylweddol sydd ei angen o hyd i adfer canlyniad tebyg i safonau cyn y pandemig. Nodwyd mai'r bwriad oedd dychwelyd i safonau cyn y pandemig yn 2024.

5.4 Y teimlad oedd mai hwn oedd y cyfaddawd gorau, gan fod y pandemig wedi cael effaith ddofn ar addysg a fyddai'n cymryd amser i'w chwalu. Rhagwelwyd hefyd y bydd rhywfaint o aflonyddwch pellach yn ystod misoedd y gaeaf oherwydd cynnydd yn absenoldeb COVID/ffliw. Yn ogystal, dim ond tua thraean o'r pellter yr oedd angen ei wneud i ddychwelyd i safonau 2019 oedd y cywiriad yn 2022, a byddai dwy ran o dair yn naid fawr mewn blwyddyn. Y cynnig oedd rhwyddhau'r dychweliad i safonau cyn y pandemig i tua thraean y flwyddyn dros dair blynedd (gan dderbyn rhywfaint o gario drosodd o UG i Safon Uwch ac ar gyfer unedau TGAU a gymerir ym Mlwyddyn 10 i mewn i 2024).

5.5 Fe wnaeth aelodau'r bwrdd egluro'r ystod o gynigion, a chodi cwestiynau o ran cynnwys yr adroddiad a risgiau cysylltiedig y gwahanol opsiynau. Barn unfrydol y rhai a oedd yn bresennol oedd bod y cynllun i ddychwelyd i safonau cyn y pandemig yn 2024 yn briodol o dan yr amgylchiadau, ac mai'r dull a argymhellwyd oedd yr opsiwn mwyaf teg. Ystyriwyd ei bod yn hollbwysig bod negeseuon yn glir ynghylch y bwriad i ddychwelyd i safonau cyn y pandemig yn 2024, ond gan gydnabod bod angen i hyn gael rhywfaint o hyblygrwydd rhag ofn y byddai angen ystyried yr amharu parhaus a achoswyd gan y pandemig.

5.6 Gofynnodd aelodau'r Bwrdd am lefel yr adolygiadau o farcio ac apeliadau ar gyfer 2022 ac fe'i hail-sicrhawyd bod y niferoedd yn ymddangos yn debyg i'r blynyddoedd cyn y pandemig. Byddai ystadegau'n cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach yn Hydref 2022.

5.7 Gwnaeth aelodau'r bwrdd sylwadau am ansawdd ardderchog y papur - o ran ei hyd priodol a'r ffordd yr oedd yn nodi'r opsiynau yn glir.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

- **Cymeradwyodd y Bwrdd y cynnig y dylai dyfarnu graddau ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch fod yn seiliedig ar safle tua hanner ffordd rhwng canlyniadau 2022 a 2019 (Opsiwn 4 yn adran 6.6 yr adroddiad) i gydnabod yr amharu ar ddysgu a brofwyd gan y carfanau sy'n sefyll arholiadau yn haf 2023 ac ystyried effaith gwobrau 2022 ar gymwysterau lefel UG/Safon Uwch cypledig a TGAU unedol.**

- **Cytunwyd y dylai negeseuon fod yn glir ynghylch y bwriad i ddychwelyd i safonau cyn y pandemig yn 2024, ond gan gydnabod yr angen posib am newid rhag ofn y bydd datblygiadau annisgwyl o ran Covid.**

6. Adolygiad o'r Sector Teithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwyo – Cynigion

6.1 Cyflwynodd CT adroddiad sy'n nodi'r cynigion sy'n deillio o adolygiad y Sector Teithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwyo, ac roedd yr adroddiad wedi'i drefnu i'w gyhoeddi ym mis Ionawr 2023. Byddai gwelliannau i gymwysterau Teithio a Thwristiaeth yn cael eu cyflawni drwy ymgysylltu â chyrff dyfarnu. Roedd Lletygarwch ac Arlwyo yn gofyn am fwy o lefelau diwygio. Roedd y papur felly yn gofyn am ganiatâd i ymgynghori ar gynnig i gomisiynu a datblygu cyfres newydd o gymwysterau Lletygarwch ac Arlwyo.

6.2 Yn ystod y drafodaeth, eglurwyd nad oedd yn fwriad i gyhoeddi hysbysiad 'bwriad i gyfyngu' mewn perthynas â chymwysterau lletygarwch ac arlwyo cyn i'r ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu hystyried. Nodwyd bod gan City and Guilds y gyfran uchaf o'r farchnad ar gyfer cymwysterau lletygarwch ac arlwyo ar hyn o bryd, a byddai ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch cynnig i gyfyngu ar y cymwysterau yn gallu ennyn lefel y diddordeb mewn datblygu cymwysterau lletygarwch ac arlwyo i ddysgwyr yng Nghymru.

6.3 Cafodd y cynigion eu trafod a'u cymeradwyo gan y Bwrdd.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

- **Cymeradwyodd y Bwrdd y cais i ymgynghori ar gynnig i gomisiynu a datblygu cyfres newydd o gymwysterau Lletygarwch ac Arlwyo.**

- **Cytunodd y Bwrdd y dylid gohirio ystyried cyhoeddi 'bwriad i gyfyngu' tan fod canlyniadau'r ymgynghoriad wedi'u hasesu.**

7. Cymwys ar gyfer y Dyfodol

7.1 Ar gyfer yr eitem hon, cafodd aelodau'r Bwrdd eu hatgoffa gan y Cadeirydd am ei ddatganiad o fuddiant yn ymwneud â'i aelodaeth o Fwrdd Estyn.

7.2 Cyflwynodd EG adroddiad ar y prosiect Cymwys ar gyfer y Dyfodol a rhoddodd ddiweddariad ar y broses ymgynghori ar gyfer y cynigion dylunio ar gyfer cenhedlaeth newydd o gymwysterau TGAU a chymwysterau cysylltiedig, a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn y cyfarfod diwethaf. Roedd y manylion yn cynnwys y canlynol:

- cynnydd ar gwblhau cynigion a pharatoi ar gyfer yr ymgynghoriad sydd i ddod
- y cwestiynau fyddai'n rhan o'r ymgynghoriad
- y dull gweithredu sydd i'w gymryd i gynnal yr ymgynghoriad

- y gweithgaredd cyfathrebu ac ymgysylltu arfaethedig i gefnogi'r ymgynghoriad.

7.3 Cafwyd diweddariad hefyd ar weithgaredd pellach a gynlluniwyd dros y misoedd nesaf, a oedd yn cynnwys chwilio am ymgysylltiad a mewnbwn pellach gan Lywodraeth Cymru ar sawl mater polisi.

7.4 Bu aelodau'r bwrdd yn trafod y canlynol:

- Cadarnhawyd bod yr ymgynghoriad ar y trywydd iawn i fynd yn fyw ddechrau mis Hydref am gyfnod ymgynghori o 10 wythnos.

- Roedd pryder am nifer yr ymgynghoriadau a gynlluniwyd dros y misoedd nesaf, ac a oedd modd rheoli hyn yn llwyddiannus o ystyried y pwysau parhaus ar y tîm cyfathrebu. Roedd pryder hefyd ynghylch gallu rhanddeiliaid i ymateb i sawl ymgynghoriad mewn amserlen gymharol fyr, ac a oedd perygl o 'flinder ymgynghori'. Dywedodd aelodau'r Bwrdd y dylid rhannu amserlen o'r holl ymgynghoriadau sydd i ddod gyda nhw fel bod y Bwrdd yn glir ar y gofynion dros y misoedd nesaf.

- Cafwyd diweddariad ar gymwysterau Cymraeg, a thrafodwyd y farn a fynegwyd gan Gymdeithas yr Iaith mewn cyfarfod yn ddiweddar, a nododd nad yr ystod o gymwysterau a gynigiwyd oedd y model yr oeddent yn eu ffafrio. Nodwyd bod y manylion yn y cynigion yn rhoi rhesymeg glir i'r tri chymhwyster newydd. Trafodwyd hefyd y dyhead a nodwyd yn 'Cymraeg 2050' ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a nodwyd, er bod gan CC a'r system gymwysterau ran i'w chwarae, ni ellid darparu hyn drwy gymwysterau TGAU yn unig a bod angen iddo fod yn flaenoriaeth genedlaethol gyda rolau ar gyfer nifer eang o randdeiliaid.

- Trafodwyd cyflymder y datblygiad o ddysgu digidol hefyd a'r angen i hyn gael ei symud ymlaen yn briodol, er gwaethaf amheuon rhai rhanddeiliaid.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

- **Nododd y Bwrdd y cynnydd a'r cynlluniau a amlinellwyd yn y diweddariad hwn, gan gynnwys y cwestiynau a fydd yn rhan o'r ymgynghoriad.**

- **Amserlen o'r holl weithgaredd ymgynghori sydd ar ddod i'w wneud gan CC i'w ddosbarthu i aelodau'r Bwrdd.**

8. Strategaeth Dewis i Bawb – diweddariad

8.1 Cyflwynodd CV adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad ar waith a wnaed fel rhan o strategaeth 'Dewis i Bawb' CC. Cyhoeddwyd y strategaeth hon ym mis Gorffennaf 2020 ac roedd yn nodi sut y byddai CC yn gweithio gyda'i randdeiliaid i gynyddu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg rhwng 2020 a 2025.

8.2 Dywedodd CV, fel rhan o'i waith parhaus, fod grŵp llywio Dewis i Bawb wedi nodi'r angen am dargedau a nodau mwy penodol i ategu a chefnogi'r pedwar maes strategol a chwe dangosydd allweddol a restrir yn y strategaeth, a oedd yn eithaf anodd eu mesur. Byddai'r targedau a'r nodau penodol hyn yn galluogi CC i ganolbwyntio ei ymdrechion a rheoli disgwyliadau i sicrhau y byddai cynnydd yn erbyn y strategaeth yn arwain at newid a gwelliant ystyrlon. Cafodd yr awgrym hwn ei gefnogi gan y Bwrdd fel ffordd o symud y strategaeth ymlaen yn ystyrlon.

8.3 Yn ystod y drafodaeth ddilynol, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Nodwyd y byddai'r llinell amser ar gyfer datblygu cynnig cydlynol a chynhwysol ar gyfer pob dysgwr 14–16 oed i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru yn dod i ben yn 2027, a fyddai'n ei gwneud yn annhebygol y byddai'r holl gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer y grŵp oedran hwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg erbyn 2025. Cydnabuwyd y mater hwn a byddai'n rhaid i'r sefydliad ei reoli.

- Trafodwyd y bartneriaeth strategol gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Gobeithiwyd y byddai'r bartneriaeth yn gallu dylanwadu'n gadarnhaol ar y cyflenwad o athrawon sy'n siarad Cymraeg.

- Awgrymwyd, o ystyried y datblygiadau arfaethedig a amlinellir yn yr adroddiad, y dylai'r Bwrdd dderbyn diweddariad pellach ar y strategaeth Dewis i Bawb yn hanner cyntaf 2023.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

- **Nododd y Bwrdd y gwaith a gwblhawyd hyd yma a'r camau arfaethedig i barhau i wneud y cynnydd angenrheidiol yn erbyn y strategaeth i alluogi ei gwireddu'n llwyddiannus.**

- **Diweddariad pellach i'w ddarparu i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Mai.**

9. Blaenoriaethau Strategol CC 2022 - 2027

9.1 Cyflwynodd PB adroddiad a gyflwynodd Flaenoriaethau Strategol CC 2022 - 2027 i'w gymeradwyo gan y Bwrdd. Nodwyd bod y Bwrdd wedi cyfrannu at ddatblygu'r blaenoriaethau strategol ac wedi adolygu a chytuno ar ddrafft blaenorol. Ers hynny roedd staff a rhanddeiliaid hefyd wedi cael cyfle i fynegi eu barn.

9.2 Awgrymodd y Cadeirydd y dylai'r Bwrdd fonitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau strategol yn rheolaidd. Dywedodd AS y byddai'r blaenoriaethau strategol yn cael eu defnyddio i lunio'r cynlluniau gweithredol, ac felly gallai'r Bwrdd fonitro cynnydd drwy'r diweddariadau y mae'n eu derbyn ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

- **Cymeradwyodd y Bwrdd Flaenoriaethau Strategol CC 2022 - 2027 fel y nodir yn yr adroddiad, i'w gyhoeddi ddiwedd Hydref/dechrau Tachwedd.**

10. Caffael uwchben trothwy GPA

10.1 Cyflwynodd AS adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer cychwyn gweithgaredd tendro i ddyfarnu tri chontract uwchben trothwy GPA o £138,760. Roedd y contractau'n ymwneud â'r canlynol:

- Cefnogaeth i gronfa ddata Cymwysterau Cymru, gyda chontract newydd yn cael ei ddyfarnu erbyn Mai 2023;

- Mae'r contract ar gyfer darparu staff dros dro o fis Mai 2023 ymlaen. Byddai gwerth y contract newydd yn ddibynnol ar angen CC yn y dyfodol am staff dros dro sy'n cael eu cyflogi drwy asiantaeth, a gofynnwyd am gymeradwyaeth i fwrw ymlaen â chytundeb a allai fod yn fwy na £138,760 dros gyfnod y cytundeb galw pedair blynedd.

- Y contract ar gyfer gwasanaethau cyfieithu o fis Gorffennaf 2023 ymlaen. Ar hyn o bryd, gwariodd CC tua £60,000 y flwyddyn ar gyfieithu, ac roedd cyfanswm gwerth y contract amcangyfrifedig dros fframwaith pedair blynedd, felly tua £240,000.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

- **Cymeradwyodd y Bwrdd gychwyn gweithgaredd tendro i ddyfarnu tri chontract uwchben y GPA.**

11. Diweddariad Diwygio Caffael

11.1 Rhoddodd AS gyflwyniad ar y diwygiadau caffael sydd i ddod a chrynhodd y rhesymeg dros ddiwygio caffael cyhoeddus; y ddeddfwriaeth gaffael bresennol, a'r ddeddfwriaeth arfaethedig, ledled y DU a hynny fel y nodir yn y Bil Partneriaethau Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Nododd AS rai o'r newidiadau a'r goblygiadau allweddol i'r sefydliad.

11.2 Cadarnhawyd y byddai diweddariad pellach ar y diwygiadau yn cael eu darparu gan y Pennaeth Caffael i naill ai'r Pwyllgor Adnoddau neu ARAC maes o law.

Crynodeb o Benderfyniadau /Gweithredoedd:

- **Nododd y Bwrdd y diweddariad diwygio caffael.**

12. Diweddariad Ymchwil

12.1 Ymunodd TA â'r cyfarfod a rhoddodd ddiweddariad am waith y tîm Ymchwil ac Ystadegau.

12.2 Bu aelodau'r bwrdd yn trafod y gwaith ar ganfyddiadau athrawon o brosesau dyfarnu 2020 a 2021 ochr yn ochr â'r ymchwil flaenorol ar Asesiad Diarholiad a chydag adlewyrchiad ar ddyluniad y TGAU o dan ddiwygiadau QFF. Roedd yna farn gyffredinol bod cydbwysedd o archwiliadau arholiad a diarholiad yn fuddiol. Cydnabuwyd bod newid effeithiol yn esblygiadol, a bod heriau o ran darparu arloesedd drwy ddull cyd-adeiladu. Roedd ymchwil yn aml yn ddefnyddiol i helpu i ddatblygu opsiynau a gweledigaeth fwy hirdymor.

12.3 Bu'r aelod o Fwrdd sy'n mynychu Grŵp Cynghori Ymchwil yn myfyrio ar fanteision y craffu allanol hwn, gan gadarnhau bod y trafodaethau yn aml yn heriol a bod mewnbwn arbenigol wedi helpu i lunio'r rhaglen ymchwil. Cydnabuwyd hefyd fod cyfaddawdu rhwng ymgymryd ag ymchwil meddwl ymlaen a chefnogi gofynion 'busnes fel arfer' ac ystadegol CC.

12.4 Yn ystod y drafodaeth ddilynol, cwestiynodd aelod o'r Bwrdd pam y dangosodd adroddiad y cynllun gweithredol fod y gwaith ymchwil i archwilio modelau o asesu parhaus wedi'i atal ar gyfer 2022/23, gan ei bod yn ymddangos bod hyn yn faes gwaith arbennig o bwysig ar hyn o bryd. Esboniodd TA nad bwriad y gwaith oedd hysbysu'r diwygiadau QFF presennol ond roedd yn rhan o waith ar gyfer newidiadau yn y dyfodol, yn y tymor hwy. Y rheswm dros ohirio'r gwaith oedd mater o adnoddau, gyda gwaith ychwanegol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno ymgynghoriad QFF ac i gefnogi'r ymgynghoriad Cynnig Ehangach sy'n cael ei gynnal gan y tîm Ymchwil. Yn ogystal, nodwyd bod rhagor o waith yn edrych ar gynhwysiant ac amrywiaeth, a fyddai'n cefnogi'r adolygiad nesaf o amcanion Cydraddoldeb Strategol y sefydliad. Er y byddai'r gwaith ar asesu parhaus wedi bod yn ddefnyddiol i'w wneud, ni theimlwyd ei fod yn hanfodol i lywio'r penderfyniadau sydd angen eu gwneud yn y tymor byr.

Crynodeb o Benderfyniadau /Gweithredoedd:

- **Nododd y Bwrdd y diweddariad ymchwil.**

13. Adroddiad Rheoli Risg

13.1 Rhoddodd AS ddiweddariad i'r Bwrdd ar gynnwys y Gofrestr Risg Strategol. Adroddwyd mai'r unig newid sylweddol ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd oedd cynnydd i sgôr risg gweddilliol COR01 (cyllid i gefnogi newidiadau i gymwysterau sy'n ymwneud â'r Cwricwlwm newydd i Gymru) gan fod angen mwy o waith i sicrhau bod gan CC yr adnoddau a oedd eu hangen i weithredu'r cynnig ehangach yn y cyfnod amser a awgrymwyd. Nododd AS y byddai angen mynd i'r afael â hyn cyn ymgynghori ar y cynnig ehangach ac y byddai diweddariad yn cael ei roi yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd.

Crynodeb o Benderfyniadau /Gweithredoedd:

- **Nododd y Bwrdd yr adroddiad rheoli risg a'r gofrestr risg corfforaethol.**

14. Cynllun Gweithredol ac Adroddiad y Gyllideb ar gyfer 2022/23

14.1 Cyflwynodd MP y wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Gweithredol 2022/23. Adroddwyd bod y pump o'r blaenoriaethau gweithredol wedi'u graddio'n wyrdd. Roedd y ddau brif fater i'w hamlygu (h.y. y system gyllid newydd ac atal y gwaith ymchwil i archwilio modelau o asesu parhaus i gefnogi diwygio cymwysterau) eisoes wedi'u trafod yn gynharach yn y cyfarfod.

14.2 Cyflwynodd KP adroddiad Diweddariad y Gyllideb sy'n cwmpasu cyllideb 2022/23 fel ar ddiwedd mis Awst 2022. Adroddwyd, trwy ddylunio, fod y sefyllfa ariannol yn dynnach nag yn y blynyddoedd blaenorol gan mai'r bwriad oedd osgoi tanwariant mawr, a byddai'r sefyllfa'n cael ei monitro'n agos wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Roedd y tanwariant rhagolygol presennol wedi'i farcio ar gyfer y wobr ddisgwyliedig o gyflog ar gyfer 2022/23.

Crynodeb o Benderfyniadau /Gweithredoedd:

- **Nododd y Bwrdd Gynllun Gweithredol ac Adroddiad y Gyllideb ar gyfer 2022/23.**

15. Rhagolwg

15.1 Nododd y Bwrdd y Rhagolwg a gofynnwyd i'r aelodau gysylltu ag AS pe bai unrhyw eitemau yr hoffent eu hychwanegu at agendâu yn y dyfodol.

16. Unrhyw fusnes arall

16.1 Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Bwrdd am eu cyfraniadau i gyfarfod cynhyrchiol. Dywedodd y Cadeirydd hefyd mai dyma gyfarfod olaf y Bwrdd i Mark Pender, Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol, a fydd yn gadael CC ddiwedd y mis i ddychwelyd i weithio i'r GIG. Diolchodd y Cadeirydd i Mark am ei waith dros y flwyddyn ddiwethaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 3:15pm

DRAFT